wPecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Dyddiad: | Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824 706204 |
| | | ebost: | dcc_admindenbighshire.gov.com.uk |

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 13 GORFFENNAF 2012** am **10.00 am** yn **CONFERENCE ROOM, TY NANT, PRESTATYN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 6ed Mawrth 2012 (copi'n amgaeëdig).

**5 MYNYCHU CYFARFODYDD**

Cydnabod presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned, a derbyn eu hadroddiadau.

**6 PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Derbyn adroddiad llafar ar ddatblygiadau diweddar a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.

**7 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU** (Tudalennau 11 - 12)

Ystyried adroddiad (copi'n amgaeëdig) yn hysbysu'r Pwyllgor o argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a sut y byddant yn effeithio Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

**8 GODDEFEB CYNGOR DINAS LLANELWY** (Tudalennau 13 - 18)

Derbyn adroddiad (copi'n amgaeëdig) yn esbonio'r ystyriaethau sy'n berthnasol wrth benderfynu a ddylid rhoi goddefeb i aelodau Cyngor Dinas Llanelwy.

**9 CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyn adroddiad llafar ar y trefniadau ar gyfer penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

**10 ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 19 - 22)

Ystyried adroddiad cyfrinachol (copi'n amgaeëdig) sy'n rhoi trosolwg i'r Pwyllgor ar ddarganfyddiadau Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2011/12 o'r enw 'Gwella Mynediad: Cyflawni Gwelliant'.

**RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL**

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraff 12 ac 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**11 CWYNION COD YMARFER** (Tudalennau 23 - 24)

Derbyn adroddiad cyfrinachol (copi'n amgaeëdig) sy'n rhoi trosolwg o'r cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â'r awdurdod.

**AELODAETH**

Aelodau Annibynnol:
**Error! No document variable supplied.**

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
**Error! No document variable supplied.**

Cynghorwyr Sir:
**Error! No document variable supplied.**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Heol Nant, Prestatyn ar ddydd Gwener 9 Mawrth 2012 am 10.00 y.b.

## YN BRESENNOL

C. B. Halliday (Cadeirydd), George Green, Ms M Medley and Mrs P White ynghyd â'r Cynghorwyr David Jones

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (MO) (GW), Dirprwy Swyddog Monitro a Chyfreithiwr (DMO) (LJ) a'r Swyddog Gweinyddu (CIW).

## YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Huw Jones a Mr Geraint F Roberts

---

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd G.A. ddiddordeb personol ac anffafriol i fusnes o dan eitem 8 yn yr Agenda.

## 2 MATERION BRYS FEL A GYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion oedd yn ôl y Cadeirydd oedd a digon o frys i gael eu trafod yn Rhan 100B(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 3 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar ddydd Gwener 19 Rhagfyr 2011.

Cywirdeb:- Ymddangosodd enw'r Cynghorydd D.E. Jones ddwywaith yn y rhestr o bwy oedd yn bresennol.

***DATRYSIAD*** *- cywirwyd hyn a chadarnhawyd y cofnod cywir.*

## 4 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oes dim adroddiadau wedi cael eu cyflwyno am bresenoldeb Aelodau o'r Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd Sirol, Trefol neu Gymunedol.

***DATRYSIAD –*** *nodi'r sylw uchod.*

## 5 PROTOCOL HUNAN REOLEIDDIO

Dosbarthwyd copi o adroddiad y MO i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod. Cynhwysai hyn gopi drafft i'r newidiadau yn y Cod Ymddygiad a Chyfansoddiad y Cyngor sy'n effeithio ar y Cod a gwaith y Pwyllgor.

Derbyniodd y Cyngor Llawn fraslun o'r newidiadau ar 28 Chwefror 2012, a byddai'r drafft terfynol yn cael ei ystyried ar 27 Mawrth 2012.

Cyflwynodd y DMO adroddiad oedd yn cynnig gwybodaeth i'r Aelodau am ganlyniad y broses ymgynghori sy'n trafod Adolygiad o'r Cyfansoddiad ac yn cynnig ardaloedd i wella. Un cynnig oedd ar gyfer y Cod Ymddygiad a'r Cyfansoddiad oedd mynegi mwy o ddarpariaeth, gan ddylanwadu ar Aelodau i fynychu hyfforddiant gorfodol ar Gynllunio a'r Cod Ymddygiad.

I ateb cwestiwn y Cynghorydd D.E. Jones, mae'r DMO wedi esbonio'r Cyfansoddiad sydd wedi cael ei adolygu ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorwyr Sir. Fodd bynnag, cytunwyd bod y MO yn ysgrifennu i bob Cyngor Tref a Chymuned yn eu hysbysu am y newidiadau i Gyfansoddiad y Cynghorau Sir, ac yn eu gwahodd i ddilyn y newidiadau.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor yr argymhellion i'r Cyngor Llawn bod y Cod Ymddygiad yn newid ac yn creu hyfforddiant gorfodol o leiaf unwaith y tymor yn y swyddfa, neu ni fyddai yn ddigon effeithiol. Rhoddodd y MO fraslun o'r rhaglen hyfforddiant a chadarnhawyd y bydd hyfforddiant ychwanegol ar gael i'r Aelodau pe dymunent. Ystyriodd a dadleuodd yr Aelodau nifer o opsiynau a chynigion i argymhellion yr adroddiad. Cynigiodd y Cynghorydd G.A. Green ac a eiliodd Ms M.E. Medley y dylai'r Aelodau orfod mynychu un sesiwn hyfforddiant y Cod Ymddygiad unwaith pob blwyddyn. Roedd canlyniad y bleidlais o blaid hyn.

Esboniwyd bod y Cod Ymddygiad yn amddiffyn yr Aelodau, a'r cytundeb cyffredinol yn dilyn yr ymgynghoriad oedd y dylai hyn cael ei gefnogi a'i gynnwys yn argymhellion y Cyngor Llawn. Gweler copi o baragraff priodol y Cod yn Atodiad 1 ynghyd â darn o'r Cyfansoddiad wedi ei adolygu fel Atodiad 3 o'r adroddiad.

Trafodwyd y gofynion y Cod Ymddygiad i gofrestru anrhegion croeso. Dyma oedd y cytundeb a'r farn gyffredinol i wneud newidiadau addas i'r Cod Ymddygiad a fyddai yn caniatáu Aelodau i dderbyn anrhegion croeso gwerth £25 heb orfod eu cofrestri. Gweler copi o baragraffau priodol y Cod a'r adroddiad dan Atodiad 1.Ystyriodd yr Aelodau argymhellion yr adroddiad, ac aeth y canlyniad o blaid y penderfyniad.

Ystyriodd yr Aelodau cynhwysiad y Protocol Hunan Reoleiddio, sy'n delio â chwynion lleol o dan y trothwy yn y Cod Ymddygiad lle mae Aelod o'r Cyngor Sir wedi gwneud cwyn yn erbyn Aelod arall. Roedd yr Aelodau o'r farn bod hyn yn syniad da a dylai gael ei gynnwys yn y Protocol Hunan Reoleiddio yn y Cyfansoddiad. Bu'r Protocol yn destun archwiliad manwl gan y Pwyllgor Safonau a gyfrannodd yn fawr i'w ddatblygiad. Gweler copi o'r drafft terfynol yn Atodiad 2. Ystyriodd a chytunodd yr Aelodau bod angen cynnwys y Protocol Hunan Reoleiddio yn y copi drafft sydd wedi ei adolygu o'r Cyfansoddiad.

I ateb cwestiwn y Cadeirydd ynglŷn â'r Ombwdsman mewn perthynas i'r Aelodau Cysylltiedig â'r Torwyr rheolau yn gyson. Cytunodd y DMO bod angen cynnwys y newidiad hwn sy'n esbonio 'gan y Prif Swyddog Grŵp mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro'.

I ateb y pryderon a'r materion a godwyd gan y Cynghorydd G.A. Green am yr amserlen a'r dyddiad arolygu, esboniodd y DMO gallai arolygiad gael ei chynnal yn y 12 mis i asesu'r sefyllfa. Cadarnhaodd y MO bod yr Ombwdsman wedi mynegi ei frwdfrydedd am agwedd Aelod i Aelod. Cadarnhaodd hefyd y byddai'r DMO yn darparu cymorth i Arweinwyr Grŵp.

Mae'r adolygiad wedi amlygu'r newidiadau i Delerau'r Gyfeiriadaeth mewn rhai Pwyllgorau. Mae cynyddu cyfrifoldebau a phroffil dyletswyddau'r Pwyllgor Safonau wedi'i gynnwys o fewn y newidiadau. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu hystyried gan y Cyngor Llawn a gallan nhw gael eu newid.

Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor y byddai canlyniad trafodaeth y Cyngor Llawn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Safonau. Bydd hyn yn sicrhau bod yr Aelodau yn gwybod am unrhyw newidiadau i delerau cyfeiriadaeth y Pwyllgor Safonau.

Yn dilyn trafodaeth bellach, cafwyd datrysiad.

***DATRYSIAD** –dylai'r Pwyllgor Safonau:-*

(a) *nodi cynnwys ac adborth yr Aelodau yn y gweithdy adolygu'r Cyfansoddiad oedd yn ymdrin â'r Cod Ymddygiad. Fe'i cynhaliwyd ar 24 Ionawr 2012 a'r Cyngor Llawn ar 28 Chwefror 2012.*
(b) *awgrymu newidiadau i'r Cyngor Llawn am y Cod Ymddygiad. Un o'r newidiadau yw sicrhau hyfforddiant gorfodol i'r Aelodau am y Cod Ymddygiad unwaith y flwyddyn.*
(c) *awgrymu i'r Cyngor Llawn y dylai lefel o anrhegion croeso yn y Cod Ymddygiad gael ei godi i £25.00.*
(d) *awgrymu i'r Cyngor Llawn y dylai'r Protocol Hunan Reoleiddio gael ei gynnwys o fewn y Cyfansoddiad, a*
(e) *bod y MO yn ysgrifennu i bob Cyngor Tref a Chymuned yn eu hysbysu am newidiadau Cyfansoddiad y Cynghorau Sirol gan eu gwahodd i fabwysiadu'r newidiadau hyn.*

**6 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***DATRYSIAD -** fel y gwelir yn Rhan 100A o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'r wasg a'r cyhoedd wedi cael eu gwahardd o fynychu cyfarfodydd sy'n trafod materion busnes sy'n datgelu gwybodaeth rydd. Mae Paragraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodiad 12A yn Neddf Llywodraeth leol 1972 yn dangos yr uchod.*

**RHAN II**

**7 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Dosbarthwyd copi o adroddiad cyfrinachol y Swyddog Monitro yn ystod y cyfarfod. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth a throsolwg ar y cwynion am Wasanaethau Cyhoeddus yr Ombwdsman yng Nghymru.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Pwyllgor Safonau wedi gofyn am gael diweddariadau cyson am lefel y cwynion am Wasanaethau Cyhoeddus yr Ombwdsman yng Nghymru. Mae Atodiad 1 o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cwynion ers 1 Chwefror 2011.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor am y gŵyn a wnaed mewn perthynas â Chynghorydd Sir a'i fod wedi'i archwilio gan yr Ombwdsman a throsglwyddo'r penderfyniad yn gyfrinachol. Fodd bynnag, cadarnhaodd bod y mater nawr yn fater ar gyfer cofnod y cyhoedd am iddo ymddangos ar y Panel Dyfarnu ar y wefan i Gymru. Esboniodd y Swyddog Monitro bod yr Ombwdsman wedi rhyddhau adroddiad yn sgil y gwyn, a'i fod wedi cyfeirio at y Panel Dyfarnu i Gymru, a bod manylion yr achos ar y ffordd.

***DATRYSIAD***:-

*(a) bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn nodiadau ar gynnwys yr adroddiad, ac yn*
*(b) nodi'r cwynion mewn perthynas â'r Cynghorydd Sirol.*

Cyhoeddodd y Cynghorydd G.A. Green ddiddordeb personol mewn busnes ar eitem 8 o'r Agenda, a gadael y cyfarfod ar y pwynt hwn.

**8 COD YMDDYGIAD**

Roedd y Pwyllgor Safonau wedi gofyn i gael ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro mewn perthynas â Rhan III o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Dosbarthwyd copi o'r adroddiad yn ystod y cyfarfod.

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau'r adroddiad ar Wasanaethau Cyhoeddus yr Ombwdsman i Gymru ("the Ombudsman"). Gweler ymchwiliad yn Rhan 69 o'r ddeddf Llywodraeth Leol sy'n trafod honiadau am dorri'r rheolau yn y Cod Ymddygiad gan Gynghorydd o Sir Ddinbych.

Gall yr Ombwdsman ymchwilio i achosion a honiadau ysgrifenedig sydd wedi eu cyfeirio ato gan unrhyw Aelod o'r Awdurdod sydd wedi bod yn aflwyddiannus wrth ddilyn Cod Ymddygiad yr Awdurdod. Noder hyn yn Rhan 69 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Derbyniodd yr Ombwdsman honiadau bod Cynghorydd Sirol wedi methu dilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Mae honiad bod y Cynghorydd Sir wedi methu cyhoeddi diddordeb personol mewn un o gyfarfodydd yr Awdurdod.

Ymchwiliodd yr Ombwdsman yr honiad hwn. Canlyniad ymchwiliad yr Ombwdsman oedd bod angen cyfeirio'r mater at Swyddog Monitro Sir Ddinbych ar gyfer ystyriaethau gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Mae ymchwiliad a rheolau'r Llywodraeth Leol 2001 (Gweithgarwch y Swyddog Monitro a’r Pwyllgorau Safonau) (Cymru) wedi dweud bod unrhyw fater angen cael ei gyfeirio ar y Swyddog Monitro a’r Awdurdod priodol gan yr Ombwdsman. Gall y Swyddog Monitro ddehongli’r adroddiad cyn y Pwyllgor Safonau.

Gweithgarwch y Pwyllgor Safonau ar ôl derbyn yr adroddiad. Bydd rhaid gwneud un o’r canlynol:-

- cadarnhau nad oes dim tystiolaeth o fethiant i ddilyn y Cod Ymddygiad yr awdurdod priodol. Bydd angen hysbysu’r person sy’n gyfrifol am yr ymchwiliad neu’r person a wnaeth yr honiad i godi’r ymchwiliad a’r Ombwdsman. Neu,

- rhoi cyfle i’r person sy’n destun yr ymchwiliad i wneud cyflwyniad, unai ar lafar neu yn ysgrifenedig. Gallan nhw esbonio agweddau’r ymchwiliad a’r honiadau am fethiant neu’r tebygrwydd o fethu yn dilyn awdurdod y Cod Ymddygiad.

Anfonodd yr Ombwdsman gopi o’r adroddiad i’r ymchwiliad i’r Swyddog Monitro ynglŷn â’r honiad yn erbyn y Cynghorydd. Gweler adroddiad yr Ombwdsman yn Atodiad 1. Gweler y dull o ddelio â honiadau yn erbyn y Cynghorwyr i’r Pwyllgor Safonau dan Atodiad 2.

Dyletswydd y Pwyllgor Safonau yw gwneud penderfyniadau sylfaenol pan nad oes dim tystiolaeth o anallu i gwrdd â’r Cod Ymddygiad. Neu roi cyfle i’r Cynghorydd roi cyflwyniad unai ar lafar neu yn ysgrifenedig er mwyn eu trosglwyddo yn ddiweddarach.

Ystyriodd Aelodau o’r Pwyllgor yr adroddiad a dyma oedd y:-

***DATRYSIAD** – bod y Pwyllgor Safonau yn cytuno y dylai’r Cynghorydd gael y cyfle i wneud cyflwyniad, unai ar lafar neu yn ysgrifenedig. Bydd hyn yn gweddu i ganlyniadau’r ymchwiliad ac i unrhyw honiadau iddo fethu â chwrdd â gofynion Cod Ymddygiad Cyngor Sir Ddinbych.*

Daeth y cyfarfod i’w derfyn am 11.10 y.b.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Safonau**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **13eg Gorffennaf 2012**

**Awdur yr Adroddiad:** **Swyddog Monitro**

**Teitl:** **Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau**

---

## 1 DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Hysbysu'r Aelodau o argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y maent yn ymwneud ag Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

## 2 CEFNDIR

2.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol cyntaf. Mae'r adroddiad yn delio â chydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn 2012/13. Mae gofyn i'r Cyngor weithredu argymhellion y Panel dan Adran 153 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

2.2 Mae'r Panel wedi penderfynu defnyddio ei bwerau i bennu taliadau. Mae'r Panel wedi pennu bandiau cyflog ar gyfer aelodau etholedig y Cyngor.

2.3 Mae'r Panel hefyd wedi penderfynu bod angen i awdurdodau lleol, ar gyfer 2012/13, dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig:

Cadeirydd Cyfetholedig, Pwyllgor Safonau £256 ffi dyddiol (£128 am hanner diwrnod)

Aelod cyffredin cyfetholedig i gynnwys y Pwyllgor Safonau £198 ffi dyddiol (£99 am hanner diwrnod)

2.4 Mae'r taliadau wedi eu capio ar swm uchaf sy'n cyfateb i ddeg diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y mae unigolyn wedi ei gyfethol iddo. Mae'r taliadau ar gyfer amser y cyfarfod yn unig, ac yn cynnwys amser a dreulir ar baratoi a theithio. Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at bedair awr a diffinnir cyfarfod diwrnod cyfan fel mwy na phedair awr.

2.5 Mae'r Panel hefyd wedi penderfynu bod angen i Gynghorau, ar gyfer 2012/13, ddarparu tâl mwyaf o £403 y mis i aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig awdurdodau sy'n mynd i gostau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant neu ddibynyddion tra'n ymgymryd â'u dyletswyddau. Gellir ond ad-dalu pan gyflwynir derbynebau.

2.6 Mae’r Panel hefyd wedi ystyried amser teithio a threuliau cynhaliaeth. Nid oes newid yn y cyfraddau milltiredd y gellir eu hawlio am deithio. Nodir y rhain isod:

45c y filltir hyd at 10,000 milltir
25c y filltir dros 10,000 milltir
5c fesul teithiwr fesul milltir – atodiad teithiwr
24c fesul milltir - beic modur preifat
20c y filltir - beic

2.7 Bydd ffurfiau teithio eraill ond yn cael eu had-dalu o gyflwyno derbynneb ddilys. Dylai’r aelodau ddewis y dull teithio mwyaf cost effeithiol bob amser.

2.8 Rhaid i’r awdurdod gadw a chyhoeddi atodlen flynyddol o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau erbyn 31ain Gorffennaf 2012 fan bellaf ac anfon copi at y Panel.

2.9 Rhaid i’r awdurdod wneud trefniadau i gyhoeddi yn ei ardal y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog, ffïoedd a chydnabyddiaeth ariannol yn ystod y flwyddyn 2012/13 erbyn 30ain Medi 2013 fan bellaf.

2.10 Caiff aelod, os dymuna wneud hynny, hepgor unrhyw ran neu’r cyfan o’r gydnabyddiaeth ariannol.

## 3 ARGYMHELLIAD

3.1 Bod yr aelodau’n cydnabod darpariaeth Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2012/13.

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Safonau**

**ADRODDIAD GAN:** **Lisa Jones – Dirprwy Swyddog Monitro**

**DYDDIAD:** **13eg Gorffennaf 2012**

**PWNC:** **Goddefeb**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

Ystyried a ddylid caniatáu gollyngiad mewn perthynas â Chynghorwyr Cyngor Dinas Llanelwy fel yr amlinellir yn Atodiad 1, ar ôl ystyried yr amgylchiadau dan y rhain y gellir rhoi gollyngiad, fel y manylir yn Atodiad 2.

## 2. CEFNDIR

2.1 Nodir yn Rhan 3 Cod Ymarfer yr Aelodau y darpariaethau mewn perthynas â buddiannau. Mae gofyniad pennaf bod angen i aelodau, ym mhob mater, ystyried os oes ganddynt fuddiant personol ac yna datgelu'r buddiant hwnnw. Mae Paragraff 10(2) yn y Cod yn nodi beth yw'r buddiannau personol hynny.

2.2 Ar ôl datgan buddiant personol, rhaid i aelod ystyried hefyd os oes ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu. Diffinnir buddiant sy'n rhagfarnu fel buddiant y byddai aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol, yn ei ystyried yn rhesymol fel un mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o ragfarnu barn yr aelod o'r budd cyhoeddus.

2.3 Ymhlith yr ystod o fuddiannau posibl a nodir ym mharagraff 10(2) y Cod mae cymdeithasau diwydiannol a darbodus, elusennau neu gyrff gyda dibenion elusennol a chlybiau, cymdeithasau preifat sy'n gweithredu yn ardal yr awdurdod, y mae'r Cynghorydd yn aelod ohonynt neu'n dal swydd o reolaeth gyffredinol. Mae'r buddiannau a ystyrir yn yr adroddiad hwn yn dod o fewn y categorïau hyn.

2.4 Mae'r Cod Ymarfer wedi ei ddrafftio i gymryd i ystyriaeth gysylltiad agos Cynghorwyr yn eu cymuned leol sy'n golygu eu bod yn debygol o fod yn chwarae rhan mewn amrywiol gyrff, ac yn wir efallai eu bod wedi eu penodi dan rai amgylchiadau i'r cyrff hyn gan eu Cynghorau. Mae'r Cod felly'n rhoi eithriad yn yr achosion hyn o benodiad neu enwebiad, ac er bod angen i'r Cynghorydd ddatgan buddiant o hyd, mae'n cael eithriad ac yn medru cymryd rhan a phleidleisio yn y ffordd arferol. Fodd bynnag, mae cafeat pellach, nad yw'r eithriad yn berthnasol lle mae'r busnes yn ymwneud â phenderfynu ar gymeradwyo, caniatáu, trwyddedu, rhoi caniatâd neu gofrestru (oni fo paragraff 12(2) C, grantiau neu gymorth ariannol hyd at £500, yn berthnasol). Dan yr amgylchiadau hyn, oni fo'r Cynghorwyr wedi cael gollyngiad, rhaid iddynt adael yr ystafell a pheidio â phleidleisio ar y mater hwn.

2.5 Bydd Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn gweld yr amgylchiadau a nodwyd y Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Golyngiad) (Cymru) 2001 yn Atodiad 2, lle gellir rhoi goddefeb.

2.6 Ynghlwm yn Atodiad 1 mae cais gan Glerc Cyngor Dinas Llanelwy i wneud cais am ollyngiad o ystyried bod nifer arwyddocaol o'r Cynghorwyr hefyd yn aelodau Cyrff Gwirfoddol lleol. Mae Clerc y Cyngor wedi nodi enw pob Cynghorydd perthnasol a'r corff dan sylw. Weithiau, pan fo angen i Gynghorwyr un neu arall o'r cyrff hyn ddatgan buddiant a gadael y cyfarfod, gall adael y cyfarfod heb gworwm, ac ni all y Cyngor drafod ei fusnes. Mae'r Pwyllgor Safonau yn y gorffennol wedi rhoi gollyngiad debyg ar 26ain Chwefror 2010, er y tro hwn mae rhestr y Cynghorwyr wedi ei diweddaru.

2.7 Deallir mai'r paragraffau yn y Rheoliadau dan y rhain y mae'r Cynghorwyr yn gofyn am ollyngiad yw'r paragraffau: -

(d) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(e) (ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(f) (d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

2.8 Mater i'r Pwyllgor Safonau yw penderfynu a ddylid rhoi gollyngiad. At hyn, efallai y dymuna'r Pwyllgor ystyried a ddylid cyfyngu'r gollyngiad i gyfnod penodol neu fod yn anghyfyngedig o ran amser.

## 3 ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried y gollyngiadau uchod ar ôl ystyried y rhesymau a nodwyd.

3.2 Bod yr Aelodau sy'n destun y gollyngiad yn datgan buddiant bersonol o hyd yn y cyfarfod lle mae'r mater i'w drafod.

ATODIAD 1

| | |
|---|---|
| Oddi wrth: | Cyngor Tref Llanelwy /TCC/DCC |
| At: | Gary Williams/Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd /DCC@DCC |
| Dyddiad: | 24/05/2012 15:23 |
| Pwnc: | Goddefeb |

Annwyl Gary

Cyfeiriaf at eich llythyr yn ddiweddar yn ymwneud â goddefebau [ymhlith pethau eraill].

Ar ôl ystyried eich llythyr, mae Cyngor y Ddinas nawr eisiau i mi wneud cais am oddefeb ar gyfer Aelodau'r Cyngor sydd hefyd yn Aelodau o'r Cyrff canlynol:-

Mae'r rhestr wedi amrywio dim ond ychydig o'r un a gytunwyd yn flaenorol

**Enw'r Corff**:-

[A] Grŵp Amgylcheddol Afon Elwy

[B] Cymdeithas Gymunedol Llanelwy

[C] Grŵp Diogelwch Cymunedol a Threfi Taclus Llanelwy

**Enwau'r Cynghorwyr y gofynnir am oddefeb ar eu cyfer, gyda'r Aelodaeth wedi ei dangos:**

| | |
|---|---|
| W.L.Cowie | [A] [C] |
| Mrs. D G Hodgkinson | [A] [B] [C] |
| Mrs E J Powell | [A] [B] [C] |
| B.Powell | [A] [B] [C] |
| Mrs B J Rust | [A] [B] [C] |
| D I Roberts | [A] |
| J O Roberts | [B] |
| D Owens | [B] [C] |
| J J Vaughan | [A] [B] [C] |
| R H Gumm | [C] |
| P Scott | [C] |
| J Wynne-Jones | [B] |

J P Horden [B]

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law

Diolch yn fawr

Andrew Pirie
Clerc y Cyngor

## ATODIAD 2

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001, darn o Baragraff 2

**Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**

**2.** Caiff pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ganiatáu gollyngiadau o dan adran 81(4) o'r Ddeddf —

(a)os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Report To:** | **Standards Committee** |
| **Date of Meeting:** | **13th July 2012** |
| **Report Author:** | **Monitoring Officer** |
| **Title:** | **Public Services Ombudsman for Wales's Annual Report 2011/12** |

## 1 PURPOSE OF REPORT

1.1 To advise Members of the publication of the Annual Report for 2011/12 of the Public Services Ombudsman for Wales (the Ombudsman) entitled 'Improving Access: Delivering Improvement'.

## 2 BACKGROUND

2.1 The Ombudsman has published his annual report for 2011/12 entitled Improving Access: Delivering Improvement'. The full report can be viewed by Members by visiting the Ombudsman's website www.ombudsman-wales.org.uk clicking on the 'Publications' tab and following the link to the Annual Report 2011/12.

2.2 The report deals with the Ombudsman's casework, which is the investigation of complaints by members of the public about public services in Wales and the conduct of Members of local authorities.

2.3 The relevant part of the report for the Standards Committee is Chapter 4 at page 18 which deals with Code of Conduct complaints and Appendix 2 at page 59 which gives a statistical breakdown of outcomes by local authorities.

2.4 In 2011/12 the Ombudsman received 412 new Code of Conduct complaints, a rise of 49% on the 2010/11 figure of 277.

2.5 The 412 new complaints are broken down below in terms of complaints received by type of authority for the years 2010/11 and 2011/12:

| | **2011/12** | **2010/11** |
|---|---|---|
| Community Council | 206 | 142 |
| County/County Borough Council | 177 | 135 |
| National Park | 28 | 1 |
| Police Authority | 1 | 0 |
| **Total** | **412** | **277** |

2.6 In his report the Ombudsman states that it is not surprising that the increase in complaints has occurred during the year in the run up to the recent local government elections. He does however express his extreme disappointment that it appears that the Code is being used in this way.

2.7 The Ombudsman also expresses his concern about certain practices emerging amongst Town and Community Councils. The Ombudsman specifically refers to Prestatyn Town Council in his report and the fact that he has corresponded with the Clerk to Prestatyn Town Council in relation to their mutual concern about the number of complaints received in respect of members of Prestatyn Town Council.

2.8 In the Ombudsman's view this level of complaints reflects a very hostile set of interactions between Councillors and must lower the esteem in which the Town Council is held by electors. The Ombudsman has urged the Council to reflect on the culture which is giving rise to these complaints and how behaviour might be changed to reverse this trend.

2.9 The Ombudsman is aware that some of these complaints are being made by a small number of members of the public. He will actively consider what further steps are available to him to tackle the problem.

2.9 The Clerk to Prestatyn Town Council has commented to the effect that the Town Council shares the Ombudsman's concerns about the large number of trivial complaints from a small number of Town Councillors about their fellow Councillors. The recent election has seen a significant change of town councillors with 10 out of 18 being new members. The Town Council has confirmed that it is keen for a new start.

2.10 Of the 412 complaints received by the Ombudsman during 2011/12 the largest proportion, 39%, related to matters of 'equality and respect'. There was a notable increase in the number of complaints relating to 'objectivity and propriety' which amounted for 25% of complaints.

2.11 There were 345 cases closed in 2011/12 of which 270 were closed after initial consideration. The number of cases referred to a Standards Committee or to the Adjudication Panel for Wales was 19 compared to 45 in 2012/11.

2.12 Appendix C of the report shows, by authority, a breakdown of the cases closed in 2011/12. There were 9 cases relating to Denbighshire of which 5 were closed after initial consideration, in one case no action was considered necessary, one was withdrawn, one was referred to Standards Committee and one to the Adjudication Panel for Wales.

2.13 In his report the Ombudsman also refers to changes to practice. The first of these is the use of local resolution procedures such as Denbighshire's Self Regulatory Protocol. The second is the practice whereby the Ombudsman, will if he is minded to close an investigation because he believes that a Standards Committee is unlikely to administer a sanction, refer the matter to the Monitoring Officer who may carry out a local investigation.

2.14 The Ombudsman also refers in his report to his proposal that a cap be placed on any indemnity offered by local authorities to members when defending themselves against an allegation that they have breached the Code of Conduct. The proposed cap is £10,000. The Ombudsman awaits a response from the WLGA to this proposal.

## 3 RECOMMENDATION

3.1 That Members note the contents of the Public Services Ombudsman for Wales' Annual Report 2011/12.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

# Eitem Agenda 11

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag